www.xtrapapers.com

OCR
Oxford Cambridge and RSA

# I'w agor ar ôl ei dderbyn

## LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

**ASTUDIAETH ACHOS WEDI'I RHYDDHAU YMLAEN LLAW**

**IONAWR 2015**

* 5 0 2 3 1 7 9 8 4 7 *

### CYFARWYDDIADAU I ATHRAWON

- Gellir rhoi'r deunydd hwn sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw i ymgeiswyr ar unrhyw adeg ar ôl i'r Ganolfan ei dderbyn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

- Cewch ymgyfarwyddo â'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw cyn sefyll yr arholiad.
- **Ni** chewch fynd â nodiadau i'r arholiad.
- **Bydd copi glân o'r deunydd hwn sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw yn cael ei roi i chi gyda'r papur cwestiynau.**
- **Ni** chewch fynd â'r copi hwn o'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw i'r arholiad.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **4** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

© OCR 2015 [K/503/6025]
DC (CW) 105993

Mae OCR yn Elusen eithriedig

www.xtrapapers.com



## Gwybodaeth i Ddysgwyr

Gall busnes ffotograffiaeth gyflogi llawer o ffotograffwyr gwahanol. Bydd pob un o'r ffotograffwyr hyn yn tynnu llawer o ffotograffau y mae angen eu storio ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol (Sefyllfa 1).

Efallai bydd angen golygu ffotograffau i'w gwneud nhw'n addas ar gyfer anghenion y cwsmeriaid (Sefyllfa 2).

## Sefyllfa 1

Mae Image Reflections yn fusnes ffotograffiaeth sy'n arbenigo mewn tynnu ffotograffau o grwpiau teulu yng nghartrefi'r cwsmeriaid eu hunain. Mae'n cyflogi tîm o ffotograffwyr teithiol ar gyfer hyn. Mae pob ffotograffydd yn cael gliniadur ac offer ffotograffig.

Mae gan Image Reflections wefan y mae'n ei defnyddio i hysbysebu ei gynnyrch a'i wasanaethau. Mae'r wefan yn defnyddio cwcis i bersonoli'r hysbysebion sy'n cael eu dangos.

Mae'r cwsmeriaid fyddai'n hoffi cael set o ffotograffau yn defnyddio'r ffurflen archebu ar wefan Image Reflections i archebu sesiwn ffotograffig. Wedyn, bydd staff yn y Brif Swyddfa yn penderfynu ar ddyddiad ar gyfer y sesiwn, yn dewis ffotograffydd sydd ar gael ac yn cadarnhau gyda'r cwsmer trwy neges e-bost.

Mae'r holl ffotograffau yn cael eu storio ar brif weinydd y system gyfrifiadurol yn y Brif Swyddfa. Mae cyfeirnod yn cael ei roi i bob ffotograff ac mae'n cynnwys pedair llythyren gyntaf cyfenw'r unigolyn a drefnodd y sesiwn a phedwar digid wedi'u seilio ar y drefn y cafodd y ffotograff ei dynnu yn ystod y sesiwn. Byddai Image Reflections yn hoffi gwella'r system hon ac mae'n ystyried defnyddio cronfa ddata i storio manylion am ffotograffau unigol.

Ychydig o ddyddiau ar ôl y sesiwn ffotograffig, mae proflun (*proof copy*) o bob ffotograff yn cael ei anfon at y cwsmeriaid, er mwyn iddyn nhw allu penderfynu pa rai maen nhw eisiau eu prynu.

Tan yn ddiweddar, mae pob un o staff y Brif Swyddfa wedi gweithio ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith, ond bellach mae perchenogion y busnes yn ystyried cael cyfrifiaduron llechen yn lle rhai cyfrifiaduron bwrdd gwaith, ac efallai yn lle pob un ohonyn nhw.

Mae Image Reflections yn awyddus i gasglu adborth gan gwsmeriaid ar ansawdd y gwasanaeth mae'n ei ddarparu, ac felly mae'n trefnu bod ffurflen ar gael ar y wefan ar gyfer hyn.

## Sefyllfa 2

Mae Sean yn ffotograffydd sy'n gweithio i Image Reflections. Mae e'n gyfrifol am greu portffolio ffotograffau o bob sesiwn. I baratoi'r portffolio hwn, mae'n rhaid i Sean ddileu unrhyw ffotograffau nad ydyn nhw, yn ei farn ef, yn cyrraedd y safon ofynnol, yn ogystal â golygu ffotograffau eraill fel eu bod yn addas ar gyfer anghenion y cwsmeriaid.

Ar ôl i Sean orffen paratoi pob portffolio, mae e'n defnyddio'r rhyngrwyd i lwytho'r portffolio ar y prif weinydd ym Mhrif Swyddfa Image Reflections. Mae Sean a pherchenogion Image Reflections yn gwybod bod risgiau posibl wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd i drosglwyddo data, ac felly maen nhw wedi cymryd camau i leihau'r risgiau hyn.

Mae Sean yn defnyddio Meddalwedd Rheoli Dyddiadur i gofnodi pob archeb ar gyfer sesiwn ffotograffig. I osgoi unrhyw wrthdaro, mae e'n cofnodi apwyntiadau personol ar yr un dyddiadur.

www.xtrapapers.com



**Paratoi**

I baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech chi ymchwilio i'r modd y mae busnes ffotograffiaeth yn defnyddio TGCh yn ei waith.

Dylai hyn gynnwys:

- gwahanol fathau o systemau cyfrifiadurol, ffyrdd o'u defnyddio, eu manteision a'u cyfyngiadau
- dulliau o ddynodi (*identifying*) ffotograffau unigol
- ffyrdd o bersonoli gwefannau fel eu bod yn addas ar gyfer cwsmeriaid unigol a'r cyfyngiadau cyfreithiol ar wneud hyn
- dulliau o ddarparu profluniau o ffotograffau ar gyfer cwsmeriaid
- ffurflenni adborth ar-lein.

Hefyd, dylech chi ymchwilio i waith ffotograffwyr teithiol.

Dylai hyn gynnwys:

- nodweddion Meddalwedd Rheoli Dyddiadur
- dulliau o ddefnyddio meddalwedd trin delweddau i olygu ffotograffau
- dulliau electronig o drosglwyddo ffotograffau, risgiau defnyddio'r dulliau hyn a chamau posibl a allai gael eu cymryd i leihau'r risgiau hyn
- fformatau ffeil patent ac agored ar gyfer storio ffotograffau.

© OCR 2015

www.xtrapapers.com



**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwymo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.

© OCR 2015